Adroddiad Cyn y Gyllideb

taflen grynodeb

Creu Prydain gryfach a thecach mewn byd ansicr

TRYSORLYS EM

Tachwedd 2001

Adroddiad Cyn y Gyllideb

Creu Prydain gryfach a thecach mewn byd ansicr

Amcan Llywodraeth y DG yw atgyfnerthu cryfder economaidd Prydain a chreu cymdeithas decach. Mae hyn yn golygu cynnal sefydlogrwydd economaidd a gwella perfformiad cynhyrchu a chyflogaeth, gan sicrhau'r adnoddau sydd eu hangen i fynd i'r afael â thlodi ymhlith plant a phensiynwyr, a chyflwyno gwasanaethau cyhoeddus o safon uchel a chodi safonau byw i bawb.

Mae'r Adroddiad Cyn y Gyllideb yn amlinellu cam nesaf y diwygiadau, yn cynnwys mesurau y bydd y Llywodraeth yn ymgynghori arnynt yn ystod y cyfnod sy'n arwain at Gyllideb 2002. Ymhlith y cyhoeddiadau allweddol yn yr Adroddiad Cyn y Gyllideb mae:

- darlun wedi'i ddiweddaru sy'n dangos y **disgwylir i economi Prydain barhau i dyfu'n gyson gyda chwyddiant isel a sefyllfa gadarn o ran arian cyhoeddus,** hyd yn oed mewn byd ansicr. Disgwylir mai $2^{1}/_{4}$% fydd y twf eleni ac mae'r Llywodraeth ar y trywydd cywir i fodloni ei rheolau ariannol caeth;

- **pecyn o fesurau i wella perfformiad cynhyrchu drwy hyrwyddo menter a sgiliau,** yn cynnwys cymhellion treth i roi hwb i ymchwil a datblygiad a buddsoddiad mewn ardaloedd difreintiedig, a chynigion i roi mynediad gwell i hyfforddiant i bobl o oedran gweithio sydd â lefelau sgiliau isel;

- **camau pellach i hyrwyddo cyflogaeth, drwy'r Credyd Treth Gweithio newydd** o 2003 a fydd yn gwneud i waith dalu i bobl ar incwm isel, pa un a oes ganddynt blant ai peidio, ac ehangu'r Fargen Newydd;

- **pecyn pellach o gymorth i bensiynwyr,** yn cynnwys isafswm cynnydd gwarantedig o £100 y flwyddyn, bob blwyddyn, ym mhensiwn sylfaenol y wladwriaeth; Credyd Pensiwn newydd o 2003; a thaliadau tanwydd gaeaf uwch parhaus;

- **camau pellach i gefnogi teuluoedd a mynd i'r afael â thlodi ymhlith plant, drwy Gredyd Treth Plant newydd** o 2003 a fydd yn darparu llif sicr o incwm i deuluoedd â phlant; a

- **£1 biliwn ychwanegol ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Gwladol** yn 2002-03. Mae'r Llywodraeth yn ystyried **gofynion ariannu hirdymor ar gyfer y gwasanaeth iechyd,** ar sail arolwg annibynnol a gomisiynwyd gan y Canghellor.

Adeiladu cryfder economaidd Prydain...
Cynnal economi sefydlog

Mae'r rhain yn amseroedd anodd i Brydain ac economi'r byd. Mae twf economaidd wedi arafu ym mhob rhan o'r byd bron, tra bo digwyddiadau trychinebus 11 Medi yn effeithio ar bob cwr o'r byd.

Ni all unrhyw wlad ynysu ei hun yn llwyr rhag digwyddiadau economaidd y byd. Ond o ganlyniad i'r camau gweithredu a gymerwyd gan y Llywodraeth i gyflwyno sefydlogrwydd economaidd, mae economi Prydain, gyda'i chwyddiant isel a'i sefyllfa gadarn o ran arian cyhoeddus, mewn sefyllfa well i gynnal twf cyson a sefydlog.



Dengys yr Adroddiad Cyn y Gyllideb:

- **y disgwylir i'r economi dyfu** 2¼% eleni - y gyfradd gyflymaf yn y 7 prif economi ddiwydiannol (G7). Disgwylir i'r economi dyfu 2-2½% y flwyddyn nesaf a 2¾-3¼% yn 2003 wrth i sefyllfa twf rhyngwladol adfer;

- mae **chwyddiant** yn is nag a fu ar unrhyw adeg ers y 1960au ac mae cyfraddau llog ar eu lefel isaf ers 1964. Disgwylir i chwyddiant barhau yn isel ac yn agos at darged y Llywodraeth o 2½%; a

- erys **arian y cyhoedd** ar y trywydd iawn i fodloni rheolau ariannol caeth y Llywodraeth. Mae'r Llywodraeth wedi ad-dalu dyledion ym mhob blwyddyn ers tair blynedd ac erbyn hyn gan y DG y mae'r lefel isaf o ddyled (fel cyfran o'r incwm cenedlaethol) o holl wledydd y G7.

Cyflwyno lefel uchel o gyflogaeth

Mae'r Llywodraeth am weld cyfran uwch o bobl mewn gwaith nag erioed o'r blaen erbyn diwedd y degawd wrth iddi geisio sicrhau cyflogaeth lawn ym mhob rhan o'r DG.

Ers ei sefydlu 4 blynedd a hanner yn ôl, mae Bargen Newydd y Llywodraeth wedi helpu i ostwng lefel diweithdra ymhlith pobl ifanc 75% a diweithdra hirdymor mwy na 70%. Mae hefyd yn helpu i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth i rieni unigol a phobl ag anableddau. Dros yr un cyfnod o amser, mae cyflogaeth wedi cynyddu tua $1^1/_4$ miliwn.

Nifer y bobl mewn gwaith



Ffynhonnell: Labour Force Survey

Gan adeiladu ar y Fargen Newydd a'r diwygiadau i wneud i waith dalu, mae'r Adroddiad Cyn y Gyllideb yn disgrifio'r camau a gymerir gan y Llywodraeth yn awr i gyflwyno cyfleoedd cyflogaeth ledled y wlad:

- **atgyfnerthu'r Gwasanaeth Trawsnewid Swyddi** er mwyn darparu cymorth pellach i bobl yr effeithiwyd arnynt gan ddiswyddiadau ar raddfa fawr mewn ardaloedd difreintiedig sy'n dioddef o ddiweithdra uchel;

- cymryd camau pellach i helpu cymunedau â lefelau uchel o ddiweithdra hirdymor drwy **brofi cyfleoedd cyflogaeth trawsnewidiol ar ffurf peilot** ar gyfer grwpiau y mae'n anodd eu helpu mewn ardaloedd difreintiedig penodol; a

- **creu Credyd Treth Gweithio newydd** i'w gyflwyno yn 2003, gan wobrwyo gwaith pobl ar incwm isel pa un a oes ganddynt blant ai peidio.

Cwrdd â'r her cynhyrchu

Yn hanesyddol, bu lefel creu cynnyrch pob gweithiwr (cynhyrchiant) ym Mhrydain yn is na'r lefel mewn gwledydd fel yr UD, yr Almaen a Ffrainc, gan arwain at fwlch cynhyrchiant sylweddol. Amcan y Llywodraeth yw y bydd Prydain yn cyflawni twf cynhyrchiant cyflymach na'i phrif gystadleuwyr, gan gau'r bwlch cynhyrchiant.



Bydd gwella perfformiad cynhyrchiant Prydain, ochr yn ochr â lefelau cyflogaeth uwch, yn helpu i gyflwyno'r adnoddau sydd eu hangen i fynd i'r afael â thlodi, gwella gwasanaethau cyhoeddus a sicrhau safonau byw uwch yn y dyfodol. Er mwyn helpu i greu economi sy'n fwy blaengar a chrefftus, mae'r Adroddiad Cyn y Gyllideb yn nodi:

- **mesurau newydd i gynyddu blaengaredd ac arloesedd ymhlith busnesau Prydeinig,** yn cynnwys ymgynghoriad pellach ar gymhellion treth er mwyn rhoi hwb i ymchwil a datblygiad gan gwmnïau mawr;

- **cynigion ar gyfer mesurau peilot newydd i wella mynediad i hyfforddiant a galluogi pobl â lefel sgiliau isel mewn gwaith i gynyddu eu sgiliau;** a

- **camau pellach i hyrwyddo blaengaredd a buddsoddiad yng nghymunedau difreintiedig Prydain,** yn cynnwys eithriadau treth stamp ar gyfer trosglwyddo eiddo mewn ardaloedd difreintiedig a chymhellion treth i fuddsoddi mewn mentrau yn yr ardaloedd hynny.

Creu cymdeithas decach.....
Cefnogi teuluoedd a phensiynwyr

Mae'r Llywodraeth am greu cymdeithas decach a mwy cynhwysol lle gall pawb gyfrannu at ffyniant economaidd uwch a rhannu ynddo. Mae'n ymrwymedig i fynd i'r afael â thlodi ymhlith plant a phensiynwyr, cefnogi teuluoedd, ehangu cyfleoedd i bob plentyn a sicrhau diogelwch i bob pensiynwr. Gan adeiladu ar fesurau blaenorol, mae'r Adroddiad Cyn y Gyllideb yn disgrifio'r camau pellach y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i sicrhau tegwch i deuluoedd a phensiynwyr:

- **cyflwyno pecyn pellach o gymorth i bensiynwyr,** yn cynnwys:
  - **isafswm cynnydd gwarantedig ym mhensiwn sylfaenol y wladwriaeth** o £100 y flwyddyn i bensiynwyr sengl a £160 i gyplau yn 2003-04;
  - **cynnal y taliad tanwydd gaeaf - sef £200 y flwyddyn - a delir i 8 miliwn o gartrefi** am weddill tymor y Senedd hon; a
  - **Credyd Pensiwn newydd o 2003** i wobrwyo pensiynwyr sydd wedi cronni cynilion neu bensiynau galwedigaethol cymedrol.
- **creu Credyd Treth Plant newydd** i'w gyflwyno yn 2003 i ddarparu un system o gymorth sy'n gysylltiedig ag incwm i deuluoedd â phlant, gan adeiladu ar sylfaen y Budd-dal Plant cyffredinol.

Cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus o safon uchel

Mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus o safon uchel sy'n bodloni anghenion pob dinesydd ym mhob rhan o'r DG.

Mae ymrwymiad y Llywodraeth i fod yn ddarbodus a'i hymrwymiad i sefydlogrwydd yn golygu y bydd y gwariant ar wasanaethau cyhoeddus yn 2003-04 £50 biliwn yn uwch nag yr oedd yn 2000-01. Dengys yr Adroddiad Cyn y

Gwariant ar iechyd ac addysg



Gyllideb sut y gwerir 75% o'r cynnydd hwn ar flaenoriaethau'r Llywodraeth, sef iechyd, addysg, trafnidiaeth, tai a chyfraith a threfn. Mewn termau gwirioneddol, rhwng 2000-01 a 2003-04 bydd y gwariant ar:

- **addysg** yn cynyddu 5.6% ar gyfartaledd bob blwyddyn;
- **iechyd** yn cynyddu 5.7% ar gyfartaledd bob blwyddyn; a
- **trafnidiaeth** yn cynyddu 14% ar gyfartaledd bob blwyddyn.

Gan adeiladu ar y rhain, mae'r Llywodraeth yn:

- ystyried y **gofynion cyllido hirdymor ar gyfer gwasanaeth iechyd y DG,** ar sail arolwg annibynnol a gomisiynwyd gan y Canghellor;
- neilltuo **£1 biliwn ychwanegol ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Gwladol** yn y DG yn 2002-03; a
- **cynnal Adolygiad o Wariant** er mwyn penderfynu ar y ffordd orau y gall adrannau gyflwyno gwelliannau pellach i'r gwasanaethau cyhoeddus a phennu cynlluniau gwariant newydd ar gyfer 2004-05 a 2005-06.

Diogelu'r amgylchedd

Cred y Llywodraeth fod yn rhaid cyflawni twf economaidd tra'n diogelu'r amgylchedd er mwyn sicrhau safon byw gwell i bawb, heddiw ac ar gyfer y cenedlaethau i ddod. Mae'n ymrwymedig i fynd i'r afael â phroblemau byd-eang, fel newid hinsawdd, yn ogystal â gwella'r amgylchedd lleol, adfywio trefi a dinasoedd Prydain a diogelu cefn gwlad.

Mae'r Adroddiad Cyn y Gyllideb yn nodi'r camau newydd sy'n cael eu hystyried, ac yn eu plith mae:

- cymhellion treth pellach **i annog busnesau i fuddsoddi mewn technolegau glanach, sy'n arbed ynni;**
- annog trafnidiaeth lanach ar y ffordd drwy **ddiwygio treth cerbyd (VED) beiciau modur a threth faniau. Mae'r Llywodraeth am sicrhau bod lorïau'n cyfrannu'n deg tuag at y costau o ddefnyddio ffyrdd y DG waeth o ba wlad y dônt,** tra'n sicrhau nad yw trethi ar ddiwydiant cludo'r DG yn codi; a
- lansio **strategaeth newydd** yn y man **ar gyfer hyrwyddo cerbydau ffordd y dyfodol** sy'n rhedeg ar danwydd carbon isel sy'n creu llai o lygredd.

Sut y gwerir arian y trethdalwr.....

Disgwylir mai tua £394 biliwn fydd cyfanswm y gwariant cyhoeddus eleni, tua £6,500 ar gyfer pob gŵr, gwraig a phlentyn yn y DG. Disgwylir i hyn gynyddu i £418 biliwn yn 2002-03 ac i £444 biliwn yn 2003-04.

Sut y gwerir arian y trethdalwr

Cyfanswm y gwariant a reolir, sef £394 biliwn



1 Yn cynnwys gwariant ar weinyddiaeth ganolog, diwylliant, y cyfryngau a chwaraeon, cydweithredu a datblygu rhyngwladol a phensiynau gwasanaethau cyhoeddus yn ogystal â gwariant heb ei neilltuo eto a rhywfaint o addasiadau cyfrifo.

Ffynhonnell: Ffigurau Trysorlys EM 2001-02

O ble y daw'r trethi

Cyfanswm derbynebion: £391 biliwn



[1] Yn cynnwys trethi cyfalaf, trethi stamp, trethi cerbydau a rhai derbynebion eraill sy'n gysylltiedig â threth a rhai nad ydynt yn gysylltiedig â threth (e.e. llog a difidendau)

Ffynhonnell: Ffigurau Trysorlys EM 2001-02

Cysylltu â ni:

Am fwy o fanylion am yr Adroddiad Cyn y Gyllideb a chynlluniau gwariant y Llywodraeth, gallwch ymweld â gwefan y Trysorlys ar http://www.hm-treasury.gov.uk

Mae'r Llywodraeth am glywed beth yw eich barn yn y cyfnod sy'n arwain at Gyllideb gwanwyn 2002.

Ysgrifennwch eich sylwadau yma a dychwelwch y dudalen hon mewn amlen (nid oes angen stamp arni) i'r cyfeiriad ar y cefn.

Cyfieithwyd i'r Gymraeg gan prysg ac argraffwyd yn y Deyrnas Gyfunol gan Y Llyfrfa Cyf.
11/01 663818 19585

Cwblhewch a datgysylltwch y dudalen sylwadau hon a'i hanfon mewn amlen i:

Pre-Budget
Freepost HA444I
Hayes
Middlesex
UB3 IBR

Nid oes angen stamp